# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**2016 dccc 3**

## RHAN 1

RHEOLI CYNALIADWY AR ADNODDAU NATURIOL

*Cyffredinol*

### 24 Pŵer i ddiwygio cyfnodau ar gyfer paratoi a chyhoeddi dogfennau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth sy'n newid erbyn pa bryd y mae'n rhaid paratoi neu gyhoeddi'r dogfennau a ganlyn—

(a) adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol neu ddrafft o adroddiad o'r fath;

(b) y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth ar ffurf diwygiad i'r Rhan hon.

(3) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag CNC.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 24 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

### 25 Rheoliadau o dan y Rhan hon

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Rhan hon i'w arfer drwy offeryn statudol.

(2) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Rhan hon yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer achosion gwahanol;

(b) i wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

(3) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Rhan hon gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

(4) Nid yw offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau sy'n cael yr effaith sylweddol o ddirymu rheoliadau a wnaed o dan adran 22(1), a hynny'n unig, yn ddarostyngedig i'r gofyniad yn is-adran (3), ond rhaid iddo gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl cael ei wneud.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 25 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

## 26 Dehongliad cyffredinol o'r Rhan hon

Yn y Rhan hon—

mae "adnoddau naturiol" ("*natural resources*") i'w ddehongli yn unol ag adran 2;

ystyr "bioamrywiaeth" ("*biodiversity*") yw amrywiaeth organeddau byw, boed ar lefel geneteg, rhywogaeth neu ecosystem;

ystyr "CNC" ("*NRW*") yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru;

ystyr "cytundeb rheoli tir" ("*land management agreement*") yw cytundeb o dan adran 16;

mae i "egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol" ("*principles of sustainable management of natural resources*") yr ystyr a roddir gan adran 4;

mae i "polisi adnoddau naturiol cenedlaethol" ("*national natural resources policy*") yr ystyr a roddir gan adran 9;

mae i "rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol" ("*sustainable management of natural resources*") yr ystyr a roddir gan adran 3;

mae "tir" ("*land*") yn cynnwys tir wedi ei orchuddio â dŵr.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 26 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

## 27 Mân ddarpariaethau a darpariaethau canlyniadol

(1) Nid yw'r diwygiadau a wneir gan y Rhan hon i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (O.S. 2012/1903) yn effeithio ar bŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion pellach o dan adrannau 13 a 15 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 (p. 24) sy'n diwygio neu'n dirymu'r ddarpariaeth a wneir gan y diwygiadau hynny.

(2) Mae Rhan 1 o Atodlen 2 yn darparu ar gyfer mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau sy'n ymwneud â'r Rhan hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 27 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Cyffredinol.